Polisi Asesu Ysgol Iolo Morganwg

Y broses o geisio a dehongli tystiolaeth i'w ddefnyddio gan ddysgwyr a'u hathrawon i benderfynu lle mae'r dysgwyr o ran eu dysgu, lle mae angen iddynt fynd a'r ffordd orau o gyrraedd yno

1. Cyflwyniad

1.1 Credwn fod asesu effeithiol yn darparu gwybodaeth i wella dysgu ac addysgu. Er mwyn gwneud hyn yn ein hysgol ni, ymgymerwn â dau fath o asesu sydd yn wahanol ond yn gyflenwol: Asesu Safonoll (profion ac asesiadau penodol) ac Asesu Ffurfiannol (yn cynnwys elfennau asesu ar gyfer dysgu, marcio ac asesu o ddydd i ddydd)

1.2 Mae Asesu Ffurfiannol yn golygu defnyddio elfennau asesu ar gyfer dysgu sef asesu yn y dosbarth i godi cyrhaeddiad disgybl. Mae wedi'i selio ar y syniad y bydd disgyblion yn gwella fwyaf os ydynt yn deall nod/sgil eu dysgu, ble maen nhw mewn perthynas â'r nod/sgil yma, a sut y gallant gyrraedd y nod/sgil yma (h.y. cau'r bwlch yn eu gwybodaeth).

1.3 Mae Asesu Safonol yn golygu mesur perfformiad disgyblion yn erbyn safonau cenedlaethol. Gall athrawon wneud y dyraniad yma ar ddiwedd uned o waith, ar ddiwedd blwyddyn neu gyfnod allweddol. Mae canlyniadau profion hefyd yn disgrifio perfformiad disgybl, yn nhermau lefelau.

1.4 Rhown adborth rheolaidd i'r disgyblion ar eu dysgu fel y deallant yr hyn sydd angen iddynt wella. Mae ymchwil wedi profi fod bod yn

rhan o'r broses adolygu yn codi safonau, a'i fod yn galluogi disgyblion i weithredu tuag at wella'u perfformiad.

2. Amcanion Asesu yn Ysgol Iolo Morganwg

2.1 Amcanion asesu yn ein hysgol ni yw:

- galluogi'n plant i arddangos yr hyn maent yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud yn eu gwaith
- helpu'n plant i adnabod y safonau i anelu atynt, ac i ddeall beth sydd angen iddynt wneud nesaf i wella'u gwaith
- caniatáu i athrawon gynllunio gwaith sy'n adlewyrchu'n gywir anghenion pob plentyn
- darparu i rieni wybodaeth reolaidd sy'n eu galluogi i gefnogi dysgu'u plentyn
- darparu ar gyfer rhieni a llywodraethwyr wybodaeth sy'n caniatáu iddynt wneud dyfarniadau am effeithiolrwydd yr ysgol

3. Cynllunio ar gyfer asesu

3.1 Yn Ysgol Iolo Morganwg defnyddiwn bolisïau pynciol a chynlluniau gwaith i lywio'n haddysgu. Yn y rhain gosodwn nodau ac amcanion, a rhown fanylion am yr hyn sydd i'w dysgu ym mhob grŵp blwyddyn. Yn ein cynlluniau gwaith adnabyddwn hefyd gyfleoedd ar gyfer asesu o fewn yr unedau. Nodir arsylwadau yng

nghynlluniau'r athrawon. Cedwir asesiadau penodol ym mhroffil unigol y plentyn.

3.2 Er mwyn cefnogi'n haddysgu, defnyddiwn Ganllawiau'r Gorchmynion Newydd a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen**,** sy'n ein helpu i adnabod lefel cyrhaeddiad pob plentyn.

3.3 Cynlluniwn ein gwersi gyda bwriadau dysgu clir. Seiliwn y rhain ar wybodaeth fanwl yr athro o bob plentyn. Ceisiwn sicrhau fod pob tasg a osodir yn addas i allu pob plentyn.

3.4 Mae athrawon bob amser yn rhannu sgil dysgu'r wers gyda'r plant wrth i'r wers ddechrau neu yn ystod y wers. Maent hefyd yn dangos y modd mae'r gweithredoedd yn cysylltu â bwriad y dysgu, a'r meini prawf y dyfynnir y gwaith wrthynt.

3.5 Mae athrawon yn gofyn cwestiynau wedi'u geirio'n ofalus a dadansoddant ymatebion disgyblion er mwyn darganfod yr hyn maent yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu'i wneud, ac i amlygu unrhyw gamsyniadau.

3.6 Nodwn unrhyw blentyn nad yw'n cyrraedd lefel ddisgwyliedig y wers, a defnyddiwn y wybodaeth yma wrth gynllunio'r wers nesaf.

4. Gosod Targedau a Thracio Cynnydd

4.1 Mae'n ofynnol drwy gyfraith i bob ysgol osod targedau yn y Gymraeg, Saesneg a Mathemateg bob blwyddyn ar gyfer y disgyblion hynny sydd ym Mlwyddyn 6. Rydym ni, mewn gwirionedd, yn gosod targedau ym Mathemateg, Iaith ac un cyffredinol, i'n plant i gyd, yn ystod pob blwyddyn ysgol. Trafodwn dargedau unigol lle bo angen, a throsglwyddwn y rhain i'r rhieni.

Pan gyflawnir targed rhoddir targed newydd i'r disgybl. Arolygwn gynnydd pob plentyn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

4.2 Gosodir targedau laith a Mathemateg I bob plentyn gan ddilyn disgrifiadau lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Er mwyn datblygu prosesau hunan arfarnu ac asesu ar gyfer dysgu adolygir y targedau yma gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Mae hyn yn arwain at werthuso cyrhaeddiad a phennu targedau pellach.

4.3 Clustnodwyd traean o'r amser CPA (Cynllunio, Paratoi ac Asesu) yn wythnosol tuag at systemau asesu. Mae'r amser hyn yn cynnwys gwerthuso effeithiolrwydd dysgu ac addysgu, marcio, hunan werthuso a thracio cynnydd.

4.4 Byddwn yn tracio cynnydd disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd yn gyson. Yn y cyfnod Sylfaen byddwn yn tracio cynnydd yn erbyn disgrifiadau'r deilliannau ac yng Nghyfnod Allweddol 2 defnyddir system tracio electronig yn erbyn sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Bwriadwn i'r system hyn ddatblygu fel ffeiliau trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.

4.5 Cyfrifoldeb y Pennaeth ac athrawon dosbarth fydd monitor cynnydd. Mae ffeiliau unigol electronig gan y plant sy'n galluogi athrawon i nodi cynnydd yn y sgiliau ym mhob maes a throsglwyddo'r rhain o flwyddyn i flwyddyn.

5. Cofnodi

5.1 Yn Ysgol Iolo Morganwg 'rydym yn cydnabod amrywiol ddulliau o asesu dysgu plentyn. Mae'r dulliau o asesu a ddefnyddiwn yn amrywio. Ni welwn hi'n angenrheidiol cadw cofnod ffurfiol o'r holl

asesiadau yma; cofnodwn y wybodaeth sy'n effeithio dysgu'r dyfodol yn unig.

5.2 Ar ein taflenni cynllunio, gwnawn nodiadau wrth werthuso ein gwersi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio'r dyfodol fel y gallwn ystyried anghenion pob disgybl. Lle mae'r rhan fwyaf o'r dosbarth yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, does dim angen llawer o wybodaeth.

6. Adrodd i rieni

6.1 Mae gennym ystod o strategaethau sy'n rhoi gwybodaeth lawn i rieni am gynnydd eu plentyn yn yr ysgol. Anogwn rieni i gysylltu â'r ysgol os teimlant bryder am unrhyw agwedd o waith eu plant.

6.2 Bob tymor, cynigwn i rieni'r cyfle i gwrdd ag athro'u plentyn. Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn ysgol, rhannwn y targedau rydym wedi'u hadnabod i'w plentyn. Yn ail gyfarfod y flwyddyn (yn ystod tymor y gwanwyn), rydym yn dangos llyfrau gwaith y plant i'r rhieni a thrafod y targedau a osodir ar ddechrau'r flwyddyn a'u cyrhaeddiad yn erbyn y targedau hyn.

6.3 Yn ystod tymor yr haf, rhown i'r rhieni i gyd adroddiad ysgrifenedig o gynnydd eu plentyn. Ysgrifennwn sylwadau unigol ar bob testun o'r Cwricwlwm, ac ar Addysg Grefyddol. Cynhwyswn le hefyd i adborth rhieni.

6.4 Yn adroddiadau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6, darparwn fanylion hefyd am y lefelau a gyrhaeddwyd yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

6.5 Ar ddechrau pob tymor, mae pob un o'n hathrawon yn paratoi i rieni trosolwg sy'n adnabod prif feysydd astudiaeth y dosbarth arbennig hwnnw.

7. Adborth i ddisgyblion

7.1 Credwn fod adborth i ddisgyblion yn bwysig iawn, am ei fod yn dweud wrthynt ba mor dda a wnaethant, a beth sydd angen iddynt wneud nesaf i wella'u gwaith. Mae gennym god marcio a gytunwyd, am fod hyn yn sicrhau ein bod i gyd yn marcio yn yr un modd, ac mae'r plant yn dysgu ei ddeall.

7.2 Rhown adborth llafar i blant ar eu gwaith pryd bynnag mae'n bosib. Gwnawn hyn fel arfer pan fo'r plant yn gweithio yn ystod y wers neu pan yn cyd farcio gyda'r plant ar ddiwedd y wers lle mae'n bosib. Pan nad yw amser yn caniatáu adborth llafar, ysgrifennwn sylwadau ar waith y plant yn ystod marcio. Rhown sylwadau ysgrifenedig i blant pob oedran.

7.3 Pan rown adborth ysgrifenedig i blant, cysylltwn hyn â bwriad/sgil dysgu'r wers. Gwnawn yn glir a gyrhaeddwyd y bwriad/sgil, a chynhyrchwn dystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad. Os ystyriwn na chyrhaeddwyd y bwriad/sgil, gwnawn yn glir paham na chredwn hyn. Yn unrhyw un o'r ddau achos, rydym yn adnabod beth sydd angen i'r plentyn wneud er mwyn cynhyrchu gwell gwaith yn y dyfodol.

7.4 Mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion sy'n cadarnhau eu bod ar y trywydd iawn, ac sy'n eu hannog i wneud gwelliant. Mae athrawon yn rhoi awgrymiadau i ddisgyblion fel arweiniad ond

gwyddant fod disgyblion yn ennill fwyaf pan feddyliant am y peth eu hunain.

7.5 Mae cael y plant i asesu'u gwaith ei gilydd yn effeithiol iawn ac yn eu galluogi i wneud eu syniadau'n glir ar symud ymlaen i'r cam nesaf, ond rhaid rheoli hyn yn ofalus, i osgoi cymariaethau di-fudd. Mae athrawon bob amser yn marcio'r gwaith eu hunain wedyn . Credwn yr hyrwyddir y dysgu fwyaf pan mae plant yn cynnal sgwrs â'r athro am eu gwaith.

8. Cynhwysiad ac asesu ar gyfer dysgu

8.1 Mae'n hysgol ni'n anelu at fod yn ysgol gynhwysol. Gweithredwn i geisio dileu'r rhwystrau dysgu a chyfranogiad all atal neu wahardd disgyblion unigol, neu grwpiau o ddisgyblion.

8.2 Cyflawnwn gynhwysiad addysgol drwy arolygu'r hyn a wnawn yn rheolaidd, drwy fonitro data, a thrwy gwestiynu'n hunain am berfformiad yr unigolion hyn a grwpiau o ddisgyblion. Yn y modd yma, gwnawn ddyfarniadau ar ba mor llwyddiannus ydym ni wrth hyrwyddo cydraddoldeb hil a rhyw, a chynnwys disgyblion ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig.

9. Safoni'r safonau

9.1 Mae pob aelod o staff yn astudio gwaith plant. Mae'n hathrawon i gyd yn trafod y lefelau yma, fel bo ganddynt ddealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau yn y testunau yma. Drwy wneud hyn,

sicrhawn ein bod yn gwneud dyfarniadau cyson ynglŷn â safonau yn yr ysgol.

9.2 Cyfrifoldeb pob aelod o staff yw bod yr enghreifftiau a gadwant o waith plant yn adlewyrchu'r ystod lawn o allu o fewn y testunau.

10. Monitro ac Adolygu

10.1 Mae'n arweinydd asesu yn gyfrifol am fonitro'r defnydd o'r polisi yma drwy'r ysgol gyfan.

10.2 Adolygir y polisi yn flynyddol.

Nia Tough Ionawr 2010

Cadw Cofnodion

Cofnod	**Cyfrifoldeb**	**Monitro**
Llyfr iaith/mathemateg / gwyddoniaeth disgyblion **Targedau Unigol**	Athro/awes Dosbarth	Pennaeth Arweinydd Iaith, Mathemateg, Gwyddoniaeth
Taflen Targedu Unigolyn	Athro/awes Dosbarth Rhieni	Pennaeth
Cynllun pythefnos Asesu sgil penodol o'r fframwaith sgiliau	Athro/awes Dosbarth	Pennaeth
Portffolio yr unigolyn - Iaith 1 darn o waith ysgrifennu pob hanner tymor Tymor yr Hydref: Llythyr neu gerdyn post + 1 arall Tymor y Gwanwyn Llyfr gwybodaeth neu bamffled + 1 arall Tymor yr Haf	Athro/awes Dosbarth	Pennaeth Arweinydd Asesu Arweinydd Iaith
Portffolio yr unigolyn – Mathemateg 1 ymchwil 2 Dewch i Feddwl Mathemateg/Came Yn dymhorol	Athro/awes Dosbarth	Pennaeth Arweinydd Asesu Arweinydd Mathemateg
Dyfal Donc	Athrawes AAA	Arweinydd AAA

Portffolio pynciau Sylfaen yn cael eu datblygu a'u diweddaru yn ôl amserlen y Sir.